No.

# PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.W. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, J.E. Charles, R. Crowley, V.P. Driscoll, O. Griffiths, K.F. McCaffer, M.J.G. Morgan, J.M. Norman, R. Nugent-Finn, S.T. Wiliam, M.R. Wilkinson and M. Wright

## 365 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 366 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd A. Moore.

## 367 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

## 368 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 369 EITHRIAD RHAG PLATIAU LLOGI PREIFAT A GOFYNION STICER DRWS (CAT) –

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu yr adroddiad i'r Pwyllgor ystyried cais gan Mr Forbes i ganiatáu i'w gerbyd, y cerbyd Llogi Preifat trwyddedig PH002, DFZ 500, gael ei eithrio o amodau Cyngor Bro Morgannwg mewn perthynas â sticeri drysau nodi Cerbydau Llogi Preifat, ac i'r cerbyd gael ei eithrio o'r gofyniad i arddangos Plât Trwydded Cerbyd Llogi Preifat.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Mr Forbes hefyd wedi cyflwyno e-bost pellach yn cefnogi ei gais a'i fodel busnes ac yn nodi sut y cynigiodd sefydlu ei fusnes Cerbydau Llogi Gweithredol.

Yn dilyn hynny, gwahoddodd y Cadeirydd Mr Forbes a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i siarad gerbron y Pwyllgor.

Esboniodd Mr Forbes ei fod yn deall yn iawn yr amodau a oedd ar waith, ond ei fod yn ceisio gwneud rhywbeth gwahanol. Roedd ei gais i beidio ag arddangos sticeri drysau allanol a phlât trwydded oherwydd natur y cleientiaid y byddai'n ceisio eu cludo a fyddai angen lefel o anhysbysrwydd a disgresiwn ac na fyddent yn defnyddio tacsi gan y byddent yn gleientiaid proffil uchel o fewn y diwydiant teledu a ffilm.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Forbes a gofynnodd i'r Aelodau a oedd unrhyw gwestiynau.

Gofynnodd y Cynghorydd Wiliam am esboniad ynghylch pam nad yw cleientiaid proffil uchel efallai am i bobl wybod eu bod mewn tacsis. Dywedodd Mr Forbes eu bod yn aml yn cael eu cludo ar draws y wlad, yn aml o Lundain, ac yn dod i Dde Cymru i ffilmio. Ni fyddent o reidrwydd am gael eu hadnabod mewn car a byddai cael eu hadnabod yn tynnu oddi ar natur weithredol y cerbyd. Byddai'r cerbyd yn dod o'r ffatri gyda ffenestri tywyll. Roedd nifer o stiwdios teledu a ffilm yn Ne Cymru fel Bad Wolf, Pinewood a Dragon, y mae pob un ohonynt yn gorfod cludo teithwyr yn ofalus ac yn aml gall hynny fod yn amod cytundebol.

Dywedodd Mr Forbes wrth y Pwyllgor ei fod eisoes wedi ceisio gwneud rhywbeth tebyg tra hefyd yn gwneud rhywfaint o waith tacsi mewn car arall a bod y car hwnnw wedi'i ddifrodi o ganlyniad. Esboniodd nad oedd ganddo unrhyw fwriad i wneud gwaith tacsi ac y byddai'r ffocws ar waith teledu a ffilm, lle'n aml y gallech fod yn yrrwr i un person am gyfnod penodol. Ei fwriad oedd cael ail gar y flwyddyn nesaf, wedi'i drwyddedu gyda Bro Morgannwg eto, ac yna trydydd pan oedd yr arian ganddo ac adeiladu fflyd o geir gweithredol i gyd-fynd â'r model busnes. Yn ddelfrydol, hoffai fod yn ddewis cyntaf i stiwdios o ran cludwyr. Byddai potensial hefyd ar gyfer gwaith priodas ar benwythnosau, yn enwedig gyda thri char ar gael. Esboniodd Mr Forbes hefyd, gan fod y car wedi'i wneud o alwminiwm, nad oedd modd defnyddio sticeri drysau magnetig.

Cyfeiriodd Mr Forbes hefyd at e-bost a ddosbarthwyd y bore hwnnw gan Paul Pearson, capten trafnidiaeth Bad Wolf Studios, a oedd yn ychwanegol at wybodaeth a dderbyniwyd eisoes ac a rannwyd ar y sgrin gyda'r Aelodau, er gwybodaeth iddynt.

Gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn a oedd unrhyw ddewis arall y gellid ei ystyried a fyddai'n cydnabod Cyngor Bro Morgannwg yn drwyddedwr y drwydded ac i nodi'r cerbyd yn gerbyd trwyddedig. Dywedodd Mr Forbes nad oedd yn siŵr pa ddewisiadau amgen a allai fod. Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu nad oedd unrhyw ddarpariaeth arall a gydnabyddir, dim ond y sticeri drysau a'r plât trwydded.

Dywedodd y Cynghorydd McCaffer y gallai fod pryder bod y cerbydau'n drwyddedig ac yn weladwy er diogelwch teithwyr, a gofynnodd i Mr Forbes a oedd yn sicrhau'r Pwyllgor na fyddai byth yn defnyddio'r car i godi'r cyhoedd ac y byddai gwaith yn cael ei drefnu ymlaen llaw. Dywedodd Mr Forbes fod hynny'n gywir.

Roedd y Cynghorydd Morgan am gael yr un sicrwydd. Dywedodd Mr Forbes ei fod yn gobeithio mynd i gontract o'r flwyddyn nesaf o ddechrau i ddiwedd cynhyrchiad, o fis Chwefror i fis Tachwedd / Rhagfyr, ac felly byddai ganddo gyflogwr sefydlog dros y cyfnod hwnnw gan beidio â chodi'r cyhoedd.

Dywedodd y Cynghorydd Wilkinson, pe bai unrhyw bryderon, y byddai Swyddogion yn gallu monitro'r defnydd o'r cerbydau a rhoi gwybod am unrhyw bryderon fel y bo'n briodol. Cefnogodd y cais gan fod hwn yn ddiwydiant sy'n tyfu.

Eglurodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod trwydded Mr Forbes ar gyfer llogi'n breifat ac felly nad oedd yn gallu stopio i godi teithwyr na defnyddio safleoedd tacsis a byddai'n rhaid archebu ei gerbydau ymlaen llaw. Ychwanegodd y Cadeirydd y gellid dal i ddefnyddio'r cerbyd yn gerbyd llogi preifat ac y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor fod yn fodlon credu Mr Forbes yn llwyr pan ddywed na fyddai'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y math hwnnw o waith gan y byddai'n cael gwneud y gwaith hwnnw'n ôl y gyfraith.

Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol i gymeradwyo'r eithriad.

Gofynnodd Mr Forbes a fyddai'n rhaid iddo fynd drwy'r un broses eto ar gyfer ail gerbyd pan oedd mewn sefyllfa i drwyddedu ail gerbyd, o bosibl ym mis Chwefror / Mawrth 2022. Dywedodd y Cadeirydd fod hynny'n gywir gan fod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob trwydded gael ei rhoi yn ei rhinwedd ei hun.

PENDERFYNWYD - Y dylid caniatáu eithriad rhag amodau 8 a 9 sy'n ymwneud â cherbydau Llogi Preifat i Mr Forbes mewn perthynas â chais a wnaed am Drwydded Cerbyd Llogi Preifat, ar gyfer cofrestru cerbyd DFZ 500.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

370 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

371 CAIS AM EITHRIAD O AMOD TRWYDDED CERBYD LLOGI PREIFAT BRO MORGANNWG – AMOD 9 GAN S (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) -

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried cais gan S i ganiatáu i'w gerbyd, y Cerbyd Llogi Preifat trwyddedig H099 HS21 FTC, gael ei eithrio o amodau Cyngor Bro Morgannwg mewn perthynas â sticeri drysau nodi Cerbydau Llogi Preifat.

Nid oedd yr ymgeisydd yn bresennol ac roedd wedi gofyn i'r cais gael ei glywed yn ei absenoldeb.

Dywedodd y Cadeirydd mai'r cais oedd y cais diweddaraf oherwydd newid mewn cerbyd yn dilyn ceisiadau blaenorol i'r Pwyllgor Trwyddedu a gymeradwywyd.

Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol i gymeradwyo'r eithriad.

PENDERFYNWYD - BOD y cais am eithriad o Amod Trwydded Cerbyd Llogi Preifat Bro Morgannwg - Amod 9, sy'n caniatáu defnyddio sticeri drws magnetig ar y cerbyd dan sylw.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.